

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

26 Mawrth 2021

Strategaeth Carbon Niwtral ar gyfer yr Adeilad

Awdur yr Adroddiad / Papur: David Michael

Perchennog yr Adroddiad / Papur (os yn wahanol i'r awdur):

Pwrpas yr Adroddiad / Papur:

I gyflwyno'r adroddiad atotedig gan ESD yn asesu opsiynau ar gyfer dadgarboneiddio.

Adroddiad / Papur wedi ei gyflwyno yn flaenorol i (os yn berthnasol):

Pwyllgor Archwilio a Risg

Pwyllgor Cynllunio Ariannol

Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad

Crynodeb o'r Adroddiad / Papur:

1. Cefndir

1.1 Mae'r broses ble medrir ddadgarboneiddio adeilad y Llyfrgell wedi bod yn destun trafodaethau manwl yn y Llyfrgell. Comisiynwyd ESD fel arbenigwyr yn y maes i ddarparu adroddiad yn rhoi eu hasesiad o'r opsiynau. Mae'r adroddiad yn rhoi gorolwg strategol ac yn cadarnhau'r ffordd ymlaen ar gyfer y Llyfrgell.

1.2 Nid yw'r isadeiledd gwresogi ac oeri presennol, er ei fod yn berffaith abl o wasanaethu'r adeilad, wedi ei gynllunio o safbwynt niwtraliti carbon. Y prif ffynhonnell o allyriadau carbon yw'r boeleri gwresogi sy'n defnyddio nwy, a bydd angen i rhain gael eu disodli'n raddol. Mae'r offer oeri yn defnyddio trydan, a chyn belled ag y gall y cyflenwad trydan fod yn zero carbon (mae hyn yn fater i Lywodraeth y DU), yna mae angen i'r Llyfrgell ystyried sut y gall ddefnyddio'r gwres sy'n cael ei wastraffu ar hyn o bryd yn gwresogi'r adeilad. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu pwysigrwydd gosodiadau solar PV; mae gan y Llyfrgell ar hyn o bryd rai 80kw ar y Trydydd Adeilad, ac me sustem llai ar fin gael ei gosod ar y Storfa Allanol.

1.3 Mae'r adroddiad yn cadarnhau ymagwedd y Llyfrgell tuag at ddadgarboneiddio, a bydd y camau cyntaf yn cael eu cymeryd yn 2021/22 fel rhan o'r rhaglen gyfalaf. Bydd nifer o heriau, gan y bydd gweithredu'r systemau mecanyddol a thrydanol yn rhai cymhleth. Mi fydd statws cofrestredig yr adeilad hefyd yn achosi cymhlethdod, ynghyd â ffactorau eraill megis effeithiolrwydd thermal gwael yr adeilad gwreiddiol.

Oblygiadau Cyllidol (os yn berthnasol):

Oes

Nac oes

Cyfrannu at Dargedau Strategol (ble mae'n berthnasol):

Argymhellion:

Argymhellir

- 1.bod yr ymagwedd tuag at ddadgarboneiddio'n cael ei gymeradwyo
- 2.bod cynnydd yn cael ei fontiro gan y Panel Adeiladau

Statws y Papur:

Angen cymeradwyaeth



Er gwybodaeth yn unig

